Ysgol Gynradd Gymraeg Pontybrenin
Heol Casllwchwr, Gorseinon, Abertawe, SA4 6AU
Ffôn / Tel: 01792 894210
E-bost / E-Mail: yggpontybrenin@pontybrenin.swansea.sch.uk
Gwefan / Website: www.yggpontybrenin.com
Trydar / Twitter: @PontybreninYGG

5/9/24

# Clybiau allgyrsiol

Tymor yr Hydref 2024

Annwyl Riant / Warchodwr,

Rwyf wedi atodi y clybiau sydd ar gael ar ôl ysgol er gwybodaeth. Bydd y clybiau yn newid o dymor i dymor.

- Ni chynhelir clybiau yn yr wythnos gyntaf na'r wythnos olaf o'r tymor
- Rhaid i bob plentyn cofrestru ar gyfer y clybiau trwy gwblhau'r slip bydd yn dod adref gyda'ch plentyn heno, a'i ddychwelyd i'r ysgol cyn gynted a phosib.
- Bydd yr athrawon sy'n gyfrifol am y clybiau yn cymryd cofrestr wythnosol ac os bydd plentyn yn colli clwb am 3 wythnos yn olynol heb gynnig rheswm, fe'i tynnir ei enw o'r gofrestr ar ôl hysbysu rhieni.
- Mae enwau'r staff sy'n gyfrifol am y clybiau ar yr amserlen. Ni fwriedir canslo clybiau ond wrth gwrs fe fydd eithriadau. Ond rydym yn bwriadu osgoi canslo. Bydd gweithgareddau yn cael eu trefnu tu fewn ar gyfer plant y clybiau pan fydd tywydd gwael.
- Pan fydd clybiau yn cael eu canslo, dyma fydd y drefn:
    - Plant gyda brodyr/chwiorydd i fynd adref fel arfer
    - Mynd at glwb arall sydd ymlaen yr un noson (os yn bosib)
    - Gwneir pob ymdrech i gysylltu gyda rhieni lle nad yw un o'r uchod yn bosib – lle nad oes cysylltiad wedi ei wneud, fe gedwir y disgybl yn yr ysgol.

Lefel Ymrwymiad

**Staff** –Trefnu a rhedeg y clwb, Iechyd o Diogelwch, hysbysu rhieni o unrhyw newid i'r drefn o flaen llaw os yw'n bosib a sicrhau gofal yn ei absenoldeb

**Rhieni** – Cytuno presenodeb eu plant trwy arwyddo'r slip, codi'r plentyn yn brydlon ar ddiwedd pob clwb, hysbysu'r ysgol o'i absenoldeb.

**Plentyn** – Cyrraedd y clwb yn brydlon, dilyn rheolau'r clwb a llythyru'r arweinydd clwb os yw'n bwriadu bod yn absennol.

parhau….

Ysgol Gynradd Gymraeg Pontybrenin
Heol Casllwchwr, Gorseinon, Abertawe, SA4 6AU
Ffôn / Tel: 01792 894210
E-bost / E-Mail: yggpontybrenin@pontybrenin.swansea.sch.uk
Gwefan / Website: www.yggpontybrenin.com
Trydar / Twitter: @PontybreninYGG

Petai rhifau y clybiau yn disgyn  ac felly yn gwneud hi'n anodd i redeg y clwb fe fyddwn yn gwneud penderfyniad i ganslo y clwb ond fe'ch hysbysir o flaen llaw.

Rwy'n ddiolchgar iawn i'r staff am gytuno i gynnal y clybiau yma ar ôl ysgol. Nid yw'n rhan o'u disgrifiad swydd ac felly maent yn gwneud o'u gwirfodd.

Os bydd ymarferion ar gyfer gweithgareddau Urdd neu arall, fe gewch lythyr ar wahan yn eich hysbysu o'r drefn

***Sylwch – Ni fydd clybiau yn rhedeg ar nosweithiau agored / rhieni neu nosweithiau cyngherddau.**

Yn ddiffuant,

Mr Ceri Scourfield
Pennaeth